ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48208

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau arfaethedig i'r gyfres o Reoliadau y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi tanynt

Cynigion i ddiweddaru a chryfhau'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol amrywiol – ymgynghoriad ar yr offerynnau statudol drafft

Rhagfyr 2023

This document is also available in English /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau yr ymatebwyr mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r gyfres o Reoliadau y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi tanynt.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Ysgolion Annibynnol

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: YsgolionAnnibynnol@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Newidiadau arfaethedig i'r gyfres o Reoliadau y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi tanynt | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cyflwyniad 4

Y cefndir 4

Crynodeb o'r ymatebion 6

Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf 9

**Cyflwyniad**

1. Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Gweinidogion Cymru a chydymffurfio â chyfres o ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys pum set o Reoliadau ac un Gorchymyn sy'n rhagnodi sut y mae rhaid iddynt weithredu:

- **Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**
- **Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003**
- **Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003**
- **Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003**
- **Rheoliadau Addysg (Ysgolion Annibynnol) (Personau Anaddas) (Cymru) 2009**
- **Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009**

2. Cafodd y rhan fwyaf o'r Rheoliadau sy'n llywodraethu ysgolion annibynnol eu gwneud 20 mlynedd yn ôl ac nid ydynt bellach yn adlewyrchu polisïau Llywodraeth Cymru. Dros y cyfnod hwn mae nifer o ddiffygion hefyd wedi dod i'r amlwg, gan gynnwys bylchau yn y fframwaith deddfwriaethol presennol a'r modd y gweithredir y Rheoliadau ac y gellir eu gorfodi. Mae angen mynd i'r afael â'r diffygion hyn ar frys.

3. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y newidiadau rheoleiddiol arfaethedig rhwng 22 Mai ac 17 Gorffennaf 2023, gyda'r bwriad o ddwyn ymlaen y ddeddfwriaeth newydd yn gynnar yn 2024.

4. Denodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 19 o ymatebion wedi'u cwblhau, gydag ystod o safbwyntiau ar y newidiadau rheoleiddiol arfaethedig. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion hynny.

**Y cefndir**

5. Yn dilyn adolygiad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Gais am Dystiolaeth gan randdeiliaid rhwng 9 Rhagfyr 2021 a 4 Chwefror 2022. Arweiniodd hyn at gefnogaeth eang i newid yn y drefn reoleiddio bresennol i helpu i sicrhau bod dysgwyr mewn ysgolion annibynnol yn cael eu diogelu'n well. Roedd Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi gwneud argymhellion y dylid diweddaru'r rheoliadau presennol, a dilynwyd hyn gan argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a fynegodd bryderon bod angen diwygio'r drefn reoleiddio bresennol ar frys er mwyn sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn parhau i fod yn ddiogel.

6. Mewn ymateb i'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu â'r sector, mae Llywodraeth Cymru bellach yn bwriadu disodli Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) (2003) a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol

(Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 a chyflwyno Rheoliadau newydd, sef Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2023. Mae'r Rheoliadau diweddaraf hyn yn rhagnodi ar ba seiliau y caniateir i gyfarwyddyd gael ei roi sy'n gwahardd person rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol.

7. Mae'r tair set o Reoliadau yn rhan o fframwaith ehangach o reoliadau, canllawiau a pholisïau sy'n cydweithio i ddiogelu dysgwyr mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru.

8. Nododd y Cais am Dystiolaeth sawl maes allweddol lle'r oedd angen diwygio'r rheoliadau presennol ar frys, gan gynnwys mewn perthynas â llywodraethu a rheoli ysgolion i sicrhau diogelwch a llesiant dysgwyr. Y bwriad yw y bydd y Rheoliadau diwygiedig yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn y meysydd hyn.

9. Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn ystyried argymhellion gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, er enghraifft y gofyniad i sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i hybu diogelu dysgwyr, cryfhau gofynion hyfforddiant diogelu ar gyfer arweinwyr, staff a dysgwyr ysgolion, ac ystyried pwy ddylai gael gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ynghyd â chynyddu amlder y gwiriadau hyn i bob tair blynedd.

10. Bydd y Rheoliadau diwygiedig hefyd yn egluro pwy sydd yn y pen draw yn gyfrifol ac yn atebol am gynnal a gwella darpariaeth mewn ysgol, a bydd y geiriad mewn nifer o Reoliadau yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn glir mai 'y perchennog', ac nid 'yr ysgol', sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio.

11. Mae newidiadau i Safon 1 (Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol) yn cynnwys diwygio'r geiriad yn y gofynion o 'ysgol' i 'perchennog', gan gynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Maent hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i sicrhau nad yw'r addysgu yn yr ysgol yn tanseilio gwerthoedd democratiaeth, rheol y gyfraith na pharch a goddefgarwch y rhai sydd â ffydd a chredoau gwahanol at ei gilydd. Mae gofyniad newydd hefyd y dylai perchnogion roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhaid i'r cwricwlwm y mae'r ysgol yn ei ddatblygu ddangos ei fod yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol yn yr ysgol. Ar gyfer dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), bydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arno yn cael ei disgrifio yn ei Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Dylai cwricwlwm ysgol ddarparu dysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel i bob dysgwr o oedran ysgol gorfodol sy'n darparu profiad yn y meysydd canlynol: iaith, cyfathrebu, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg, y Dyniaethau, iechyd, llesiant a chelfyddydau mynegiannol, a chodi disgwyliadau drwy ddefnyddio termau fel 'effeithiol' neu 'da' yn hytrach na 'boddhaol' neu 'digonol'.

12. Ar draws Safonau eraill, gan fod trefniadau gweithio cyfunol a hybrid yn fwyfwy cyffredin, mae'r newidiadau yn cynnwys y dylai'r Safonau adlewyrchu'r newidiadau hynny mewn addysg a chymdeithas. Er enghraifft, mae cyfeiriadau penodol at yr 'ystafell ddosbarth' wedi cael eu dileu.

13. Yn fwy cyffredinol, wrth gydnabod yr angen i ddiweddaru'r Safonau, rydym yn ymwybodol bod sawl un o'r Rheoliadau yn cyfeirio at ddogfennau penodol wrth eu henwau, a bod y Rheoliadau wedyn yn dyddio wrth i'r dogfennau hynny gael eu disodli. Rydym felly yn y mwyafrif o achosion yn dileu'r dogfennau a enwir o'r Rheoliadau ac yn rhoi yn eu lle gyfeiriadau at fwriad polisi y canllawiau i ddiogelu'r Rheoliadau ar gyfer y dyfodol a chadw'r ddeddfwriaeth yn gyfredol. Er mwyn helpu ysgolion i ddeall a chydymffurfio â'r Rheoliadau a gofynion statudol eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu llawlyfr Canllawiau Cofrestru a Gweithredu Ysgolion Annibynnol wedi'i ddiweddaru. Rydym yn bwriadu ei gyhoeddi pan wneir y Rheoliadau diwygiedig.

14. Blaenoriaeth allweddol arall yw cyflwyno **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**, sydd hefyd yn cael effaith ar y Rheoliadau sy'n cael eu hadolygu. Rydym felly wedi diwygio'r Rheoliadau perthnasol i adlewyrchu gofynion y Ddeddf honno.

15. Denodd yr ymgynghoriad 19 o ymatebion wedi'u cwblhau, a daeth 8 ohonynt gan ysgolion annibynnol unigol, a'r gweddill wedi'u cyflwyno gan unigolion a chyrff mwy o faint.

16. Cyflwynwyd dau ymateb yn ddienw. Cyflwynwyd un ymateb gan riant. Pan fo ymatebwyr wedi gofyn i'w manylion gael eu cadw'n gyfrinachol, mae'r cais hwnnw wedi'i anrhydeddu. Cafodd yr ymatebion eraill eu darparu gan y canlynol:

- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Estyn
- Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru

### Crynodeb o'r ymatebion

17. Roedd cefnogaeth eang i'r newidiadau arfaethedig i'r gyfres o Reoliadau y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi tanynt. Er bod lle i wella wedi'i nodi, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig.

18. Roedd 15 ymatebydd yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r holl Safonau o fewn Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2023.

19. Gwnaeth dau ymatebydd sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig.

*"Dylai beth bynnag sydd ei angen i gadw plant yn ddiogel gael ei gefnogi gan ysgolion. Mae hefyd yn arfer dda adolygu polisïau'n rheolaidd a dwi'n meddwl y dylai pob ysgol wneud hyn."*

*"Mae hyn eisoes yn arfer gyffredin mewn ysgolion da."*

20. Roedd 15 ymatebydd yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2023 ac â chyflwyno Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023.

21. Gwnaeth dau ymatebydd sylwadau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth:

*"Dwi'n meddwl bod y rhain yn dangos gwiriadau synhwyrol ar rywun sydd eisiau'r cyfrifoldeb o weithio gyda phlant."*

*"Rydym yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023. Yn enwedig manylion buddiannau busnes eraill gan y bydd hyn yn tynnu sylw at unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion ac yn sicrhau bod diogelwch dysgwyr yn cael y flaenoriaeth uchaf drwy sicrhau mai dim ond unigolion addas sy'n gallu gweithredu ysgolion annibynnol."*

22. Nodwyd rhai pwyntiau pwysig yr oedd angen cymryd camau i'w datrys cyn i'r Rheoliadau terfynol gael eu dwyn ymlaen yn gynnar yn 2024. Mae'r manylion ar gael isod.

*Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2023*

23. Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru ei barn y dylai Safonau 1 a 2 o'r Rheoliadau drafft sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion dynnu sylw at yr angen i ystyried gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r pryderon hyn wedi cael sylw yn y Rheoliadau fel y'u gwnaed.

24. Mae Safon 3 o'r Rheoliadau drafft yn ymwneud â llesiant, iechyd a diogelwch disgyblion, ond mynegwyd pryderon gan Estyn y dylai'r perchennog sicrhau

bod 'pob aelod o staff' yn yr ysgol yn mynd ati i hybu llesiant disgyblion. Mae hyn wedi cael sylw yn y Rheoliadau fel y'u gwnaed.

*Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023.*

25. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y dylai'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi cyfarwyddyd adran 167A gynnwys y gofyniad i Gyngor y Gweithlu Addysg gael ei hysbysu os rhoddir cyfarwyddyd adran 167A ynghyd â'r rhesymau dros hynny ac i bwy y mae'n berthnasol. Bydd hyn yn galluogi Cyngor y Gweithlu Addysg i ystyried perthnasedd y datgeliad o dan ei swyddogaeth statudol ei hun i ymchwilio ac i ystyried achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwystra proffesiynol difrifol, a/neu droseddau perthnasol yn erbyn person cofrestredig. Rydym wedi ystyried y sylw ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen diwygio'r Rheoliadau drafft fel a gynigiwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg gan fod Deddf Addysg 2002, adran 167C, eisoes yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth o'r fath.

26. Cafwyd awgrymiadau eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch ystod o fân faterion, ac ystyriwyd y rhain wrth ddiweddaru'r ddogfen Canllawiau Gweithredu a fydd ar gael ochr yn ochr â'r Rheoliadau pan fyddant yn dod i rym yn gynnar yn 2024.

*Dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg o niwed*

27. Yn ogystal â'r cwestiynau yn ymwneud â'r Rheoliadau drafft, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio safbwyntiau ar gynnig i gyflwyno, o bosibl, ofyniad ar unigolion, gan gynnwys perchnogion, llywodraethwyr neu ymddiriedolwyr ysgolion annibynnol a'u holl staff a gwirfoddolwyr, i hysbysu'r awdurdod lleol lle maent yn gwybod neu'n amau'n rhesymol bod plentyn, sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn profi neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Mae hyn yn gysylltiedig ag argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Ystyrir eisoes ei bod yn arfer dda i ysgol hysbysu pan fydd yn gwybod neu'n amau'n rhesymol bod plentyn, sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Fodd bynnag mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar unigolion.

28. Roedd 13 ymatebydd yn cytuno â'r cwestiwn mewn perthynas â'r ddyletswydd i roi gwybod am blentyn sydd mewn perygl o niwed.

29. Dywedodd dau ymatebydd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn:

*"Mae unrhyw beth sy'n helpu i gadw plant yn ddiogel yn bwysig."*

*"Rydyn ni'n cytuno'n gryf â'r cynnig i gyflwyno gofyniad ar berchnogion, llywodraethwyr neu ymddiriedolwyr ysgolion annibynnol a'u holl staff a gwirfoddolwyr, i hysbysu'r awdurdod lleol lle maent yn gwybod neu'n amau'n rhesymol bod plentyn, sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn profi neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio."*

30. Er bod yr ymatebion yn dangos cefnogaeth i symudiad o'r fath mewn egwyddor, nid gosod y gofyniad hwn yn y pecyn hwn o newidiadau deddfwriaethol oedd y bwriad.

**Ymateb Llywodraeth Cymru a'r Camau Nesaf**

31. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r holl sylwadau wedi'u hystyried a, lle bo'n briodol, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r gyfres o Reoliadau i ystyried y sylwadau hynny.

32. Hefyd, pan fo sylwadau wedi'u gwneud y mae angen mynd i'r afael â hwy ond na fyddai angen newidiadau i'r Rheoliadau drafft, gwnaed newidiadau i'r Canllawiau Cofrestru a Gweithredu i gwmpasu'r sylwadau hynny. Y bwriad yw cyhoeddi'r Canllawiau ar yr un adeg ag y daw'r Rheoliadau diwygiedig i rym. Fodd bynnag, bydd y rhain ar gael i'r sector cyn hynny er mwyn i ysgolion annibynnol yng Nghymru allu paratoi'n well ar gyfer y gofynion deddfwriaethol diwygiedig.